

Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)02-07 (p1): 19 Medi 2007

Ymchwiliad y Pwyllgor i Gynllunio Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Y Cylch Gorchwyl a'r Rhaglen Waith Arfaethedig

Diben

1. Nod y papur hwn yw cynnig cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad craffu'r Pwyllgor i Gynllunio Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac i amlinellu rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref ar sail yr ymchwiliad a'r blaenoriaethau eraill y cytunwyd arnynt.

Y Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor y dylai ei Ymchwiliad Craffu cyntaf edrych ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ystod toriad yr haf, derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor bapur yn ymwneud â'r Ymchwiliad gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau a eglurodd:

Y trefniadau presennol;

Y Materion allweddol;

Cwmpas posibl yr ymchwiliad;

Y Cylch gorchwyl drafft; a

Y Rhestr arfaethedig o dystion i roi tystiolaeth lafar.

3. Ynghyd â'r papur cwmpasu, cafodd Aelodau'r Pwyllgor raglen waith amlinellol hefyd. Yn ôl hon, byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod bob wythnos rhwng nawr a'r Nadolig er mwyn medru cwblhau'r ymchwiliad o fewn amser rhesymol. Roedd y rhaglen amlinellol hefyd yn cynnwys busnes arall yr oedd angen i'r Pwyllgor ei gwblhau, fel trafod y gyllideb a chraffu'n gyffredinol ar waith y Gweinidogion. Rhagwelwyd y byddai'r cyfarfodydd wythnosol yn dechrau am 9:30am ac yn gorffen erbyn 11:30am. Rhagwelir hefyd y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cyfarfod yn anffurfiol cyn bob cyfarfod am 9:00am i benderfynu sut y maent am fynd ati i holi tystion penodol. 4. Ni nododd yr Aelodau unrhyw bryderon sylfaenol ynglŷn â'r papur er yr awgrymwyd enwau rhai cyrff ychwanegol y gellid gofyn iddynt roi tystiolaeth ysgrifenedig.

Y Cylch Gorchwyl

5. Isod, mae'r Cylch Gorchwyl drafft a nodwyd yn wreiddiol ym mhapur Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau. "Ymchwilio i effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer cynllunio gweithlu yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i wneud argymhellion ar gyfer y trefniadau yn y dyfodol, gan gyfeirio at:

Y ffordd y mae cyfrifoldeb wedi'i rannu ymhlith cyrff sy'n gyfrifol am gynllunio'r gweithlu a'r dulliau a ddefnyddiant

Y wybodaeth sydd ar gael a all gyfrannu at gynllunio'r gweithlu a safon y wybodaeth honno

Rhan yr holl randdeiliaid perthnasol yn y broses gynllunio

Newidiadau ym mhatarwm y galw am wasanaethau (gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio) a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys ailgyflunio gwasanaethau, defnyddio technoleg newydd, trefniadau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus)

Trefniadau trawsffiniol â'r GIG yn Lloegr

Newidiadau mewn swyddogaethau proffesiynol a rhaglenni hyfforddi

Y cydweithio rhwng asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Anghenion gweithlu'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat

Recriwtio gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Cymru, gan gynnwys staff sy'n siarad Cymraeg a'r rheini o grwpiau Pobl

Dduon a Lleafrifoedd Ethnig

Enghreifftiau o arfer da ac arloesol."

6. Nid yw Aelodau'r Pwyllgor wedi nodi unrhyw bryderon ynglŷn â'r cylch gorchwyl a gofynnir i'r Pwyllgor eu mabwysiadu'n ffurfiol ar gyfer yr ymchwiliad.

Y Rhaglen Waith

7. Ynglwm wrth y papur hwn mae'r rhaglen waith amlinellol ar gyfer tymor yr hydref. Yr un ddogfen yw hon, yn ei hanfod, â honno a ddosbarthwyd yn ystod toriad yr haf er bod dyddiadau ac amseroedd rhai sesiynau unigol wedi newid. Bydd Aelodau'r Pwyllgor am nodi mai dogfen weithio yw hon ac nid yw pob un o'r cyrff wedi cael gwahoddiad eto i roi tystiolaeth. Mae'n debyg, felly, y bydd yr amseroedd a'r dyddiadau'n newid eto wrth i'r trefniadau gael eu cadarnhau (er bod y trefniadau ar gyfer y pedwar cyfarfod cyntaf yn eithaf pendant). Yn benodol, rydym yn awr yn credu y dylid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi tystiolaeth lafar.

Tystiolaeth Ysgrifenedig a Fformat y Sesiynau Tystiolaeth Lafar

8. Bydd y rheini sy'n cael eu gwahodd i roi tystiolaeth lafar hefyd yn cael cais i gyflwyno memorandwm ysgrifenedig ymlaen llaw. Bydd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau a fydd yn cynnwys awgrymiadau ynglŷn â'r cwestiynau y dylid eu gofyn ym mhob sesiwn dystiolaeth. Bydd y wybodaeth yn defnyddio memorandwm ysgrifenedig y rheini sy'n rhoi tystiolaeth wrth

baratoi'r wybodaeth hon. Byddwn yn gofyn iddynt gynnwys y wybodaeth sylfaenol a ganlyn ym mhob memorandwm.

Cyflwyniad byr yn sôn am y corff;
 Crynodeb o'r prif bwyntiau yr hoffent i'r Pwyllgor eu hystyried ;
 Gwybodaeth ffeithiol yr hoffent i'r pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt;
 Unrhyw argymhellion yr hoffent i'r pwyllgor ystyried eu cynnwys yn ei adroddiad.

9. Yn unol â'r sylwadau a gynigiwyd yn y cyfarfod diwethaf, ac i sicrhau bod amser y Pwyllgor yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, bydd y tystion yn cael gwybod y bydd y sesiynau tystiolaeth yn cael eu cynnal ar ffurf cwestiynau ac atebion ac ni fydd cyfle iddynt roi "cyflwyniadau" rhagarweiniol (ar wahân i'r cyflwyniadau ar gyfer y cofnod).

Tystiolaeth Ysgrifenedig Arall

10. Cyn belled â bod Aelodau'r Pwyllgor yn fodlon â'r cylch gorchwyl, byddwn, gyda hyn, yn gwneud cais am dystiolaeth ysgrifenedig. Byddwn yn gwneud hyn drwy anfon Datganiad i'r Wasg y byddwn hefyd yn ei anfon at amrywiaeth eang o gyrff a all fod â diddordeb yn y mater. Bydd yr ymatebion a gawn yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth, a byddant hefyd yn cael eu dadansoddi gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Yn dilyn hyn, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i gyrff eraill roi tystiolaeth lafar.

Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

11. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn a chymeradwyo'r cylch gorchwyl a gynigir ym mharagraff 5. **Steve George**
Clerc y Pwyllgor
Medi 2007

ATODIAD A

Blaenraglen Waith Amlinellol - Hydref 2007

Dyddiad y cyfarfod (pob un ar ddydd Mercher)	Tystion /Eitemau posibl	Diben	Amser
Medi 19	Ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio am y Gwasanaeth Ambiwlans Cylch Gorchwyl/Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru- GIG Cymru (Ann Lloyd)	Sesiwn Graffu Gyffredinol/Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	45 mun 15 mun 60 mun
Medi 26	Swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru - Gweithlu Gofal Cymdeithasol (Rob Pickford)Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	60 mun 60 mun
Hydref 3	Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart AC)	Sesiwn Graffu Gyffredinol	120 mun
Hydref 10	Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd /Uned Datblygu'r Gweithlu, Addysg a Chytundebau Cydffederasiwn y GIG (gan gynnwys cynrychiolwyr y Byrddau Iechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau)	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	60 mun 60 mun

Dyddiad y cyfarfod (pob un ar ddydd Mercher)	Tystion /Eitemau posibl	Diben	Amser
Hydref 17	Cyllideb y Cynulliad 2008-09 Cyngor Gofal Cymru	Craffu ar y Gyllideb DdrafftYmchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	60 mun 60 mun
Hanner tymor	O ddydd Llun 29 Hydref i ddydd Gwener 4 Tachwedd		
Tachwedd 7	Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies AC)	Sesiwn Graffu Gyffredinol	120 mun
Tachwedd 14	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymdeithas Ddeintyddol Prydain Coleg Brenhinol y Nyrsys	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	40 mun 40 mun 40 mun
Tachwedd 21	Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Undeb Llafur (UNSAIN)	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	40 mun 40 mun

Tachwedd 28	Coleg Therapyddion Galwedigaethol Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion Corff Ymbarél - Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	40 mun 40 mun
-------------	--	-----------------------------------	------------------

Dyddiad y cyfarfod (pob un ar ddydd Mercher)	Tystion /Eitemau posibl	Diben	Amser
Rhagfyr 5	Fforwm Gofal CymruPartneriaeth Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Paratoi ar gyfer sesiwn gyda'r Gweinidog (preifat)	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	40 mun 40 mun
Rhagfyr 12	Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol Trafodaeth gyffredinol (preifat) - materion sy'n dod i'r amlwg	Ymchwiliad i Gynllunio'r Gweithlu	105 mun 15 mun